



# Newyddion Ionawr 2026

## CLWB GWAU

Dysgodd Blwyddyn 4,5 a 6 sgil newydd cyn y Nadolig a penderfynnu cynnal ‘Clwb Gwau’ i aelodau o’r gymuned. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn sgwrsio a gwau!




## YMWELIAD Y GEIFR!

Fel rhan o’u gwaith thema yn astudio’r llyfr ‘Tri Bwch Gafr’ daeth dau afr i’r ysgol. Cafodd y plant hanes y geifr, cyfle i ofyn cwestiynnau a cael cwtsh gyda’r babi!











## CYFARCHION Y NADOLIG

Mi fuodd y plant yn brysur yn ystod ‘Pnawn Gwener Gwyrdd’ yn creu cardiau Nadolig. Cafodd y Cyngor Ysgol fynd o amgylch Clocaenog yn postio’r cardiau. Mi aeth y gweddill i ysbyty Rhuthun i godi calonnau y rhai oedd yn treulio cyfnod y Nadolig yn yr ysbyty.




## DATHLU SANTES DWYNWEN

I ddathlu Santes Dwynwen cafodd y plant wisgo dillad pinc, coch a gwyn i’r ysgol a cael disgo lliwgar. Cafwyd hanes Santes Dwynwen yn ein gwasanaeth wythnosol.



## CYNGOR ECO

Mae’r ysgol yn ceisio adnewyddu eu gwobr ‘Masnach Deg’ ac rydym yn hynod ddiolchgar i’n Cyngor Eco drefnu gweithgareddau tuag at ein cais. Edrychwn ymlaen at glywed eich syniadau!